

DOLEN Y TAB 64

16–17 Gorffennaf 2021

Oedfa Rithiol Sul 18 Gorffennaf

Myfyrdod gan y Parchg. Gethin Rhys ynghyd â chyfraniadau gan Eifiona Hewitt a Sian-Eleri Fudge.

Oedfa Sul Nesaf

Gorffennaf

25 Oedfa Rithiol yng ngofal Geraint Rees.

Hefyd gobeithiwn gynnig dewis rhwng dau ddigwyddiad awyr agored yn ystod y bore:

Naill ai

Taith gerdded i'r egniol i ben Mynydd y Garth.

Neu

Ailgynnau cyfeillgarwch dros baned o goffi.

Rhagor o fanylion am y ddau ddigwyddiad i ddilyn.

Hefyd ddydd Sul 18 Gorffennaf

12:00 Oedfa Radio Cymru

Yng ngofal rhai o staff a gwirfoddolwyr y mudiad Tir Dewi.

12:30 Radio Cymru – Bwrw Golwg

John Roberts a'i westeion yn trafod materion moesol a chrefyddol.

E-fwletin Cristnogaeth21

Bob bore Sul

www.cristnogaeth21.cymru

PEN BLWYDD HAPUS

Pob dymuniad da i Shelagh Griffiths, Heol y Ffynnon, fydd yn dathlu ei phen blwydd yn 80 mlwydd oed ddydd Sadwrn 17 Gorffennaf. Gobeithio'n fawr y daw cyfle i ni i gyd ganu 'Pen blwydd hapus' i Shelagh yn fuan.

O'r Diwedd!

Un eitem sydd wedi ymddangos yn fisol ar agenda'r Bwrdd dros y pymtheg mis diwethaf yw 'Ailagor y Capel'. Wrth gwrs, roedd hyn yn gwbl anochel wrth edrych yn ôl dros y flwyddyn a mwy ers dyfodiad Covid-19. Sylw dealladwy un o'r aelodau, wrth symud i'w drafod eto fyth yng nghyfarfod y Bwrdd nos Fawrth, oedd na fu'r capel ar gau drwy holl gyfnod y pandemig – sylw gafodd ei borthi'n frwdfrydig gan bawb oedd yn bresennol.

Wrth agor y drafodaeth ar y pwnc awgrymodd Edwyn Evans, Cadeirydd y Bwrdd, fod y sefyllfa'n parhau'n ddryslyd. Ar y naill law roedd canran sylweddol o oedolion Cymru bellach wedi derbyn dau frechiad, tra ar y llaw arall roedd nifer yr achosion o'r amrywiolyn Delta yn dyblu mewn llai nag wythnos. Dryswch pellach yw bod y gagendor rhwng ymateb Llywodraeth San Steffan a Llywodraeth Cymru yn parhau, a hynny er eu bod yn derbyn yr un data gwyddonol. Tra bod Boris Johnson yn awchus i gyhoeddi y bydd Lloegr yn symud i Lefel Sero o'r 19^{eg} o'r mis hwn ymlaen, mae Mark Drakeford yn llawer mwy gofalus wrth awgrymu na fydd Cymru'n llacio'r cyfyngiadau'n llwyr am y tro. Serch y dryswch rhwng y ddwy lywodraeth, cytunwyd y dylem anelu at ddychwelyd i'r Tabernacl ar fore Sul cyntaf mis Medi, ac yn y cyfamser byddwn yn paratoi asesiad risg wedi'i seilio ar y dystiolaeth wyddonol fydd yn ddilys ar ddiwedd Awst.

Arweiniodd y sylwadau agoriadol at drafodaeth eang a bywiog, ac er bod peth gwahaniaeth barn ymhlith yr aelodau ynglŷn â'r dyddiad y dylem ail-agor, roedd pawb yr un mor awyddus â'i gilydd i ddychwelyd mor fuan ag roedd hi'n ddiogel i wneud hynny. Fe'n hatgoffwyd hefyd nad yw'r rhai sydd wedi derbyn dau frechiad yn gwbl rydd o ddal Covid-19, ac y bydd y pandemig yma am gryn amser eto. Ond wedi pwyso a mesur yn ofalus, roedd mwyafrif clir yn cefnogi arweiniad y Cadeirydd ein bod yn anelu i ailagor ar 5 Medi.

Mae'n bosib iawn y bydd angen gwisgo mwgwd dan do am fisoedd lawer eto, ond ers mis bellach mae caniatâd i gynnwys canu cynulleidfaol fel elfen o'r oedfa – sy'n gam arall i'w groesawu wrth ddychwelyd at ryw fath o normalrwydd. Braff felly yw cyhoeddi, oni wneir tro pedol sylweddol ar lacio'r cyfyngiadau a gyflwynir gan Lywodraeth Cymru ar 7 Awst, y cawn gwrdd yn y Tabernacl unwaith yn rhagor ar fore Sul 5 Medi.

Iwan

Mae heddiw yn ddiwedd cyfnod arbennig i Iwan. Y diwrnod olaf wedi wyth mlynedd hapus iawn yn y Ganolfan arbenigol yng Nglantaf.

Diolch i Glenys Mair Roberts am grisialu'r cyfan mor fendigedig.

I'r Ganolfan – Ar ran Iwan

Am y cariad, y cwtshys a'r gofal
A'r amynedd wrth ateb ei gri,
Ac am weled addewid pob diwrnod
Mae Iwan yn diolch i chi.

Am ei annog, ei feithrin a'i arwain,
Am y chwerthin a'r gwenu a'r sbri,
Ac am weithio mor galed bob amser
Mae Iwan yn diolch i chi.

Am greu hafan ar ynys fach lawen
I'w amddiffyn bob dydd rhag y lli,
Ac am fentro a herio yn eofn
Mae Iwan yn diolch i chi.

Am agor ei lygaid i weled
Byd natur a'i wyrthiau di-ri,
Ac am gerdded bob dydd gam ymhellach
Mae Iwan yn diolch i chi.

Am ddangos rhyfeddod pob gwanwyn
A'r hydref a'i liwiau di-ri,
Ac am ddyfalbarhau drwy bob gaeaf
Mae Iwan yn diolch i chi.

GAIR O DDIOLCH

Annwyl Ffrindiau

Mae'n braf cael bod adre a theimlo'n well. Diolch i bawb sy wedi bod mor gefnogol i ni fel teulu. Rhaid diolch hefyd i'r holl bobol yn yr ysbyty sy'n gweithio dan amodau anodd iawn ar adegau.

Edrych mlaen yn arw at gael dychwelyd i'r capel a chael sgwrs go iawn efo pawb!

Beti a Gwil

Cylchlythyr wythnosol yw **Dolen y Tab** i ledaenu newyddion trwy gyfrwng e-bost, Facebook a gwefan y capel.

Gofynnir i chi anfon unrhyw newyddion erbyn nos lau at: 07710 237327 / 01443 225205.

Rhagor o'r Bwrdd

Er mai 'ailagor' y Capel oedd y brif eitem ar agenda'r Bwrdd yng nghyfarfod Gorffennaf, rhoddwyd sylw dyladwy i nifer o faterion eraill gan gynnwys y canlynol:

Rhaglen Arloesi a Buddsoddi

Adroddwyd fod yr Is-bwyllgor Arloesi a Buddsoddi wedi cwrdd yn fuan ar ôl clywed am lwyddiant y cais am nawdd gan yr Undeb. Aed ati i lunio hysbyseb ynghyd â'r trefniadau i gynnal cyfweiliadau i benodi Swyddog Ieuenticid a Chymunedol. Mae'n siŵr y bydd o ddiddordeb gan bawb i wybod i'r cais gael ei ddisgrifio fel un oedd yn 'batrwm y byddai'n talu i eglwysi eraill ei weld a'i efelychu' pan gyhoeddwyd y dyfarniad yng Nghynhadledd Flynyddol Undeb yr Annibynwyr ddiwedd Mehefin.

Cofrestru Priodasau

Eleni, am y tro cyntaf ers canol y 19^{eg} ganrif, cyflwynwyd newidiadau gan Senedd San Steffan i'r trefniadau statudol wrth gofrestru priodasau. Diolchwyd i Rhys Llywelyn a Helen Middleton am eu gwaith yn paratoi canllawiau diwygiedig y bydd raid i'r eglwys eu dilyn mewn priodasau a gynhelir yn y Capel yn y dyfodol.

Gweithgor Cyfiawnder Cymdeithasol

Derbyniwyd adroddiad yn dangos nad oes pall yn y gwaith a gyflawnir gan y Gweithgor dan arweiniad John Llew. Nodwyd fod £1,145 wedi ei gasglu dros Wythnos Cymorth Cristnogol a bod £1,835 pellach wedi ei drosglwyddo i'r banc bwyd lleol. Hefyd maent yn llwyddo i gyflenwi dodrefn ac eitemau eraill i Pobl, a nwyddau hylendid i bobl ifanc ddi-waith.

Pwyllgor y Meddiannau

Dan arweiniad Mike West, mae'r gwaith o gynnal a chadw'r adeiladau a'r tiroedd wedi mynd rhagddo'n ddi-fwlch dros y pymtheg mis diwethaf, gan gynnwys cwrdd â'r gofynion statudol niferus o ran iechyd a diogelwch a threfnu i atgyweirio yn ôl y galw.

Adroddiad Ariannol

Dosbarthwyd copi o gyfrifon yr eglwys dros chwe mis cyntaf 2021 i aelodau'r Bwrdd. Er bod lleihad o ran y derbyniadau dros y cyfnod, roedd gostyngiad mwy yn y costau. Am y tro, felly, mae'r sefyllfa ariannol yn foddhaol iawn dan yr amgylchiadau.

CAPEL Y TABERNAACL CYF.

SWYDDOG IEUENCTID A CHYMUNEDOL RHAN AMSER

Rydym yn chwilio am unigolyn brwd i arwain a datblygu gweithgareddau arloesol a chymunedol ymhlith pobl ifanc yr eglwys.

Oriau: 24 awr yr wythnos

Dyddiad cau: Dydd Iau 5 Awst 2021.

Am ragor o wybodaeth am y swydd, a sut i fynd ati i gyflwyno cais, cysylltwch â Gwilym Huws

gehpengwern@yahoo.co.uk / 01770 237327.